**CABINET**
**28 GORFFENNAF 2020**

Cofnodion cyfarfod Cabinet Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn rhithiol trwy Webex ar ddydd Mawrth 28 Gorffennaf, 2020.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd Ian Roberts (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Glyn Banks, Derek Butler, Dave Hughes, Christine Jones, Billy Mullin a Carolyn Thomas.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog (Llywodraethu), y Rheolwr Cyllid Corfforaethol, y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant), y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid), Rheolwr Gyfarwyddwr – NEWydd, Rheolwr Cyllid Strategol – Masnachol a Thai, Rheolwr Prosiect a'r Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Democrataidd.

**AELODAU ERAILL YN BRESENNOL:**
Y Cynghorydd David Mackie.

**194. DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan baragraff 15 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**195. ARLWYO A GLANHAU CYFYNGEDIG NEWYDD: ADFERIAD COVID 19 A DIOGELU'R BUSNES I'R DYFODOL**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) yr adroddiad ac eglurodd, ers trosglwyddo i Gwmni Masnachu Awdurdod Lleol yn 2017, bod Arlwyo a Glanhau Cyfyngedig NEWydd wedi ymdrechu i greu model o weithrediadau mwy modern a chystadleuol a oedd yn nodwedd allweddol o'i Gynllun Busnes cyn Covid-19 ar gyfer 2020/21.

Rhoddodd Rheolwr Gyfarwyddwr NEWydd gyflwyniad cynhwysfawr a oedd yn nodi'r cynigion yn llawn ar gyfer newid sefydliadol a datblygiad model gweithredu newydd i ddiogelu hirhoedledd Arlwyo a Glanhau Cyfyngedig NEWydd.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau ynglŷn â chyfleoedd gan Aelodau ac ymatebwyd iddynt, gyda'r pwyslais ar y busnes yn datblygu. Gofynnwyd cwestiynau hefyd ynglŷn â'r gweithlu a'r gwaith a wnaed gyda'r Undebau Llafur.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol, gwnaeth y Cynghorydd Mackie y sylw canlynol:

"Teimlaf y dylai'r adroddiad fod wedi dechrau gyda manylion o baragraff 2.08 sy'n egluro fod y busnes wedi cronni arian wrth gefn yn llwyddiannus yn eu 3 mlynedd gyntaf. Rwyf hefyd wedi clywed eu bod wedi ymdrin â heriau sylweddol yn ystod yr argyfwng a gyda'i gilydd byddai'r pwyntiau hyn wedi dangos eu bod yn fusnes llwyddiannus a hyblyg sydd angen newid yn yr hinsawdd gyfredol".

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi sefyllfa bresennol Arlwyo a Glanhau Cyfyngedig NEWydd yng ngoleuni effaith yr argyfwng Covid-19 a'r gyrwyr ar gyfer newid sefydliadol o fewn y cwmni;

(b) Cymeradwyo cychwyn cyfnod o ymgynghori gyda'r Undebau Llafur, staff a chleientiaid ar y model gweithredu newydd arfaethedig a fydd yn diogelu dyfodol hirdymor y cwmni; a

(c) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Reoli Corfforaethol ac Asedau a'i ddefnyddio gyda chyngor y Rheolwr Gyfarwyddwr, i awdurdodi a gweithredu'r model gweithredu newydd.

## 196. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 2.05 p.m.)

…………………………
**Y Cadeirydd**